**Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2025**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr adran Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Huw Irranca-Davies AS**
**Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**27 Awst 2025**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunydd Lluosogi Ffrwythau (Cymru) 2017 ("Rheoliadau 2017") i ddiogelu bioddiogelwch drwy sicrhau bod categorïau plâu a'r gofynion o ran lleoedd cynhyrchu yn gyfredol ac yn gyson â datblygiadau o ran asesu risg. Mae'r Rheoliadau'n diweddaru'r gofynion ar gyfer Plâu Rheoledig Di-Gwarantîn ('RNQPs') newydd.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1), (1A), (2), (3) a (5) a 36 o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 ("Deddf 1964").

3.2 Mae adran 16(1) o Ddeddf 1964 yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae’n ymddangos i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt cyn gwneud y Rheoliadau.

3.3 Mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad negyddol.

### 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Nod Rheoliadau 2017 yw rheoli ansawdd planhigion ffrwythau (ar gyfer cynhyrchu ffrwythau) a deunydd lluosogi ffrwythau ar y farchnad. Gwnânt hyn trwy osod safonau cynhyrchu ar gyfer y deunydd hynny i sicrhau eu bod yn bodloni safonau gofynnol o ran iechyd ac ansawdd planhigion yn ogystal â safonau adnabod amrywogaethau lle bo hynny'n briodol.

4.2 Gall cyflenwr farchnata deunydd planhigion o'r fath dim ond os yw'r cyflenwr wedi'i gofrestru a bod y deunydd planhigion yn bodloni'r safonau.

4.3 Yng Nghymru a Lloegr, mae'r Cynllun Ardystio Lluosogi Ffrwythau ('FPCS') yn gweithredu gofynion Rheoliadau 2017 ar gyfer cynhyrchu planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi ffrwythau ardystiedig yn y categorïau Cyn-Sylfaenol, Sylfaenol ac Ardystiedig. Bydd gofynion ansawdd gwahanol i bob categori, gyda'r gofynion y categori Cyn-Sylfaenol yn llymach os yw'r deunydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel deunydd lluosogi. Mae'r categori ardystiedig ar y llaw arall yn cynrychioli'r radd o blanhigion y gellir eu gwerthu i gynhyrchu ffrwythau.

4.4 Mae'r radd *Conformitas Agraria Communitatis* ('CAC') yn cynrychioli'r safonau gofynnol y dylai unrhyw blanhigyn ffrwythau i gynhyrchu ffrwythau

eu bodloni yng Nghymru, a bydd tyfwyr yn archwilio eu planhigion ac yn cadarnhau eu bod yn bodloni'r gofynion hyn drwy'r cynllun pasbort planhigion presennol.

4.5 Rhaid i linach yr holl ddeunydd a ychwanegir at yr FPCS fod yn hysbys a rhaid eu tyfu o dan amodau penodol o ran safle a'u hynysu oddi wrth gnydau eraill. Ychwanegir cnydau at y cynllun i gynhyrchu gradd benodol ac fel arfer, byddant yn cael eu hardystio ar y radd honno. Caiff cnwd ffrwythau ei archwilio o leiaf unwaith y flwyddyn gan Arolygydd Iechyd Planhigion a Hadau cymwysedig yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ('APHA'). Mae niferoedd ac amseriad arolygiadau yn amrywio yn ôl y categori o blanhigion a lefel goddefiant gwahanol blâu a chlefydau. Yn ystod archwiliad, caiff deunydd planhigion ei archwilio'n weledol i gadarnhau naill ai nad oes pla neu glefydau perthnasol arnynt neu fod rhai plâu neu glefydau yn bresennol o dan lefelau goddefiant rhagnodedig. Lle bo angen, gellir cynnal gwaith samplu a phrofion labordy hefyd. I fod yn ddi-bla neu fodloni'r lefelau goddefiant, efallai y bydd yn rhaid cael gwared ar blanhigion heintiedig a / neu eu trin yn fiolegol, ffisegol neu gemegol. Ambell waith, efallai y bydd angen dinistrio'r cnwd cyfan. Cyhoeddir manylion ardystio mewn cofrestr flynyddol a gynhyrchir gan APHA.

4.6 Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/2072 ('y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol') yn rhestru RNQPs ar blanhigion ffrwythau a deunydd lluosogi, a'r lefelau goddefiant, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ofynion profi, mewnforio na symud eraill. Yn lle hynny, mae gofynion i sicrhau y bodlonir goddefiannau RNQP wedi'u cynnwys yn Rheoliadau 2017. Maent yn cynnwys gofynion cynhyrchu fel profion feirws asymptomatig ar blanhigion tarddiol a gofynion archwilio i gadarnhau'n weledol bod y planhigion yn ddi-bla ac yn bodloni'r gofynion goddefiant ar y safle. Gan fod feirws crwn tybaco (Tobacco Ringspot), feirws crwn tomatos (Tomato Ringspot) a chawod goch llus wedi'u rhestru fel RNQPs ar ffrwythau lletya rheoledig yn y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol, mae'n briodol ychwanegu gofynion profi ac archwilio cysylltiedig at Reoliadau 2017 ar gyfer yr RNQPs hynny.

4.7 Yn ogystal, ar hyn o bryd y DU yw'r unig wlad sydd wedi cael cyfwerthedd ledled yr UE ar gyfer marchnata planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi ffrwythau cyn belled â'i bod yn parhau i fodloni gofynion yr UE. Mae'r UE hefyd yn cyflwyno gofynion o ran profion, archwiliadau a safleoedd cynhyrchu ar gyfer yr RNQPs hynny sy'n unol â phlâu tebyg yn Rheoliadau 2017. Er mwyn cynnal cyfwerthedd, mae'n briodol ein bod yn cadw at y gofynion hynny sydd yn ein barn ni yn addas ac y gellir eu cyfiawnhau o fewn ein fframwaith deddfwriaethol fel y gallwn barhau i fasnachu'n ddifwlch.

4.8 Ar hyn o bryd, dim ond ar rai planhigion addurnol y mae feirws crwn tybaco a feirws crwn tomatos wedi'u cofnodi,  er eu bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr. Dylai'r gofynion hyn helpu i sicrhau bod y diwydiant planhigion ffrwythau yn rhydd o'r firysau hyn, sy'n llawer mwy niweidiol ar blanhigion ffrwythau nag ar blahigion addurnol.

4.9 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2017 drwy —

a. fewnosod diffiniad o "marchnata" er mwyn sicrhau eglurder ynghylch pa weithgareddau sy'n cael eu cwmpasu gan Reoliadau 2017;
b. mewnosod gofyniad bod yn rhaid i ddogfennau cyflenwyr sy'n teithio gyda phlanhigion ffrwythau o radd CAC yn nodi a yw'r amrywogyn wedi'i addasu'n enetig;
c. gwneud mân gywiriad lle defnyddir y term 'amrywogyn' yn lle'r term cywir 'rhywogaeth';
d. mewnosod atodlen i newid sut mae Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn 2014/98/EU yn cael ei darllen er mwyn gwneud y newidiadau a nodir yn y pwyntiau e i i isod;
e. ychwanegu feirws crwn tybaco, feirws crwn tomatos a *Pucciniastrum minimum* (cawod goch llus) fel RNQPs;
f. ychwanegu gofynion ynghylch y safle cynhyrchu, profion ac archwiliadau mewn perthynas ag ychwanegu'r RNQPs hyn ar eu priod blanhigion lletya;
g. cael gwared ar y *Fig Mosaic Agent* fel RNQP oherwydd diffyg gwybodaeth am effeithiau economaidd;.
h. dileu *Candidatus Phytoplasma australiense* fel RNQP, ac unrhyw ofynion cysylltiedig, gan fod hwn yn bla cwarantîn ar lefel Prydain Fawr;
i. addasu'r gofynion o ran safleoedd cynhyrchu, profion ac archwiliadau ar gyfer *Candidatus* Phytoplasma *pyri* i'w gwneud yn gyson â phlâu tebyg.

4.10 Mae deddfwriaeth gyfatebol wedi'i gwneud yn Lloegr a'r Alban i ddiwygio eu deddfwriaeth marchnata ffrwythau hwythau. Disgwylir i'r ddeddfwriaeth yn Lloegr a'r Alban ddod i rym ar yr un dyddiad â'r Rheoliadau hyn. Mae Gogledd Iwerddon eisoes yn ddarostyngedig i'r trefniadau hyn o dan gyfraith yr UE.

## 5 Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy e-bost rhwng 7 Mawrth a 2 Mai i geisio barn ar y newidiadau arfaethedig i Reoliadau 2017. Anfonwyd yr e-bost yn Gymraeg a Saesneg at randdeiliaid yng Nghymru, yr Alban a Lloegr gan gynnwys at arbenigwyr lluosogi ffrwythau, bridwyr a chyrff cynrychioliadol y diwydiannau hynny. Ni ddaeth ymatebion ysgrifenedig i law. Hynny, fwy na thebyg am fod yr yr RNQPs hyn eisoes wedi'u hychwanegu at y gyfundrefn Iechyd Planhigion ac felly roedd y diwydiant wedi rhagweld y byddai'r diwygiadau cysylltiedig o ran safleoedd cynhyrchu, profion ac archwiliadau yn cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth marchnata ffrwythau.

**Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

## 6 Yr opsiynau

6.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r opsiynau sydd ar gael i'r Gweinidog a allai wireddu amcanion y polisi, gan gynnwys:

- cadw'r status quo h.y. busnes fel arfer (y cyfeirir ato cynt fel 'gwneud dim') – byddai hyn yn golygu na fyddai'r personau hynny sy'n ymwneud â marchnata planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi ffrwythau yng Nghymru yn cael marchnata eu nwyddau ledled Ewrop gan na fyddent yn cydymffurfio â'r archwiliadau RNQP ychwanegol. Byddai hyn yn cael ei ystyried yn anfantais i gwmnïau ffrwythau Cymru. Ni fyddai'n gwella safonau bioddiogelwch rhag plâu planhigion risg uchel.

- gwneud y Rheoliadau – bydd hyn yn caniatáu i'r personau hynny sy'n ymwneud â marchnata planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi ffrwythau yng Nghymru farchnata eu nwyddau ledled Ewrop. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel diogelwch rhag tyfwyr Cymreig fyddai'n eu hanffafrio. Byddai'n gwella safonau bioddiogelwch rhag plâu planhigion risg uchel.

- Unrhyw ddewisiadau dichonadwy eraill - ni nodwyd unrhyw ddewisiadau dichonadwy eraill. Yr unig ffordd i wneud y newidiadau angenrheidiol yw trwy ddeddfwriaeth.

## 7 Costau a manteision

7.1 Mae'r newid hwn i'r ddeddfwriaeth yn dechnegol ei natur ac yn fach ei effaith. Rhagwelir y caiff effaith fach ar fusnesau.

7.2 Ar hyn o bryd un cwmni yng Nghymru sydd wedi'i gofrestru o dan y cynllun FPCS ac felly'n gorfod bodloni'r gofynion ychwanegol hyn sy'n gysylltiedig â chynhyrchu deunydd ardystiedig.

7.3 Gan fod planhigion ffrwythau sy'n dod o dan yr FPCS eisoes yn cael eu harchwilio ar gyfer plâu eraill, nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau oherwydd amser archwilio gan y bydd arolygwyr yn chwilio am y plâu hyn ar yr un pryd â phlâu rheoledig eraill. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw samplu sydd ei angen. Yn y rhan fwyaf o achosion, lle ymddengys bod deunydd planhigion wedi'i heintio, cynhelir cyfres o brofion arnynt a fydd yn chwilio am nifer o pathogenau felly dylai costau aros yr un fath neu ond cynyddu o ryw ychydig o ganlyniad i'r RNQPs newydd.

7.4 Bydd costau newydd yn gysylltiedig â phrofi planhigion tarddiol cyn-sylfaenol a sylfaenol, mewn perthynas â feirws crwn tomatos a feirws crwn tybaco. Y costau dangosol ar gyfer y profion hyn yw £212 + TAW ar gyfer feirws crwn tomatos fesul sampl a £242 + TAW y sampl ar gyfer feirws crwn Tomato a feirws crwn tybaco (sy'n berthnasol i *Vaccinium* yn unig (mae hyn

yn cynnwys llus*)*). Fodd bynnag, dim ond rhan fach iawn o unrhyw gnwd (os o gwbl) a fydd yn dod o'r planhigyn tarddiol gan fod yn rhaid ei gynhyrchu o dan fesurau bioddiogelwch llym iawn nad oes rhaid eu cynnal bob blwyddyn. Mae amlder y profion yn dibynnu ar y math o ddeunydd ac mae'n amrywio rhwng bob 2 flynedd a phob 20 mlynedd.

7.5 Gall cyflenwyr deunydd planhigion a gynhyrchir ar y radd CAC is, gofrestru ar gyfer y FPCS, a rhaid iddynt fodloni'r un gofynion ar gyfer plâu planhigion o ran bod yn rhydd i bob pwrpas o blâu a chlefydau penodol fel sy'n briodol i'r genws neu'r rhywogaeth. Fodd bynnag, y cyflenwr sy'n gyfrifol am gynnal archwiliadau gweledol a samplu a phrofi deunydd CAC. Arolygwyr APHA ar y llaw arall fydd yn cynnal archwiliadau a phrofion ar gyfer deunydd gradd uwch. Gan fod planhigion yn cael eu harchwilio gan y busnes ei hun, yn hytrach na chan arolygwyr APHA nid oes cofnod manwl o ran nifer y planhigion. Fodd bynnag, oherwydd y costau isel a amlinellir uchod am amser archwilio a samplu ychwanegol, nid ydym yn rhagweld y bydd y costau sy'n gysylltiedig â phlanhigion ar raddau CAC yn sylweddol a thelir amdanynt gan y gostyngiad yn y plâu a chlefydau planhigion a ledaenir o ganlyniad i'r Rheoliadau hyn.

7.6 Gan nad oes plâu ar y planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi a gynhyrchir ar hyn o bryd, bydd y profion angenrheidiol yn helpu i sicrhau bod hyn yn parhau a bod Cymru'n parhau i gynhyrchu a derbyn planhigion ffrwythau o ansawdd uchel o statws iechyd planhigion uchel.

7.7 Gall lledaeniad plâu a chlefydau, fel *Feirws Crwn Tybaco a Feirws Crwn Tomatos* , a chawod goch llus, gael effeithiau andwyol sylweddol y tu hwnt i'r partïon uniongyrchol sy'n gysylltiedig â thrafodiad. Mae'r rhain yn cynnwys costau economaidd i dyfwyr eraill, difrod ecolegol, a bygythiadau i fioamrywiaeth. Mae rheoleiddio yn lliniaru'r effeithiau allanol hyn trwy orfodi safonau iechyd a diogelwch wrth symud a marchnata planhigion ffrwythau.

7.8 Er na all yr FPCS warantu y bydd pob planhigyn sydd wedi'i ardystio yn gwbl rhydd o blâu a chlefydau, mae'r cynllun yn cynnig lefel werthfawr o sicrwydd ynghylch iechyd planhigion gan fod planhigion sydd o dan yr FPCS yn cael eu tyfu o dan amodau llym. Mae hyn yn lleihau'r risg o gyflwyno plâu a chlefydau niweidiol i'r safle cynhyrchu ac yn sicrhau bod modd eu holrhain gan fodloni gofynion marchnata llym deunydd ardystiedig sy'n ddisgynyddion o stoc tarddiol sydd wedi'i brofi o ran iechyd ac egni.

7.9 Rhoddwyd cyfwerthedd i'r DU gan yr UE yn 2020 ar gyfer cynhyrchu deunydd lluosogi ffrwythau a phlanhigion ffrwythau a fwriedir ar gyfer cynhyrchu ffrwythau, gan ein alluogi i barhau i farchnata'r rhywogaethau hynny a gwmpesir gan Reoliadau 2017 i'r UE a'u symud i Ogledd Iwerddon. Rydym yn bwriadu cyflwyno gofynion profi ac arolygu. Yn ogystal â bod yn unol â'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer plâu tebyg, byddant yn unol hefyd â gofynion diweddaraf yr UE. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn cynnal cyfwerthedd ac yn sicrhau ein bod yn gallu parhau i farchnata planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi ffrwythau a gynhyrchir yng Nghymru yn yr UE a symud planhigion o'r fath i Ogledd Iwerddon.